# PWYLLGOR SAFONAU

## 16 IONAWR 2024

**PRESENNOL** M. Dodd (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

**Y Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
G.B. Thomas a B.W. Jones

**Aelodau Annibynnol (Yn y Siambr):**
D. Evans a J. James

**Aelodau Annibynnol (Yn rhithwir):**
C. Davies a F. Phillips

**Aelod Cymunedol (Yn rhithwir):**
Cynghorydd P. Rogers

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
A. Eynon, Prif Gyfieithydd;
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell: 1:30yp - 1:53yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

**3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 11 RHAGFYR 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir.**

## 4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD ALED DAVIES, CYNGHORYDD ALUN DAVIES, CYNGHORYDD ARWEL DAVIES, CYNGHORYDD MARK HARRIES, CYNGHORYDD ANDREW THOMAS

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais a gyflwynwyd gan y Cynghorwyr Aled Davies, Alun Davies, Arwel Davies, Mark Harris, Andrew Thomas o Gyngor Cymuned Maenordeilo a Salem, i siarad a phleidleisio a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â materion y cyngor ynghylch Cynllun Ynni Tywi Wysg *Bute Energy*.

Nodwyd bod cais am ollyngiad wedi ei gyflwyno gan 5 Cynghorydd ac roedd gan bob un ohonynt fuddiant rhagfarnol yn y materion sy'n ymwneud â Chynllun Ynni Tywi Wysg *Bute Energy*. Bu'r aelodau'n ystyried y rhestr o fuddiannau personol a atodwyd i'r adroddiad.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y cais yn cyfeirio at y ffaith bod y 5 Cynghorydd gyfystyr â 41% o gyfanswm aelodaeth y Cyngor.

Wrth nodi bod gollyngiadau a roddwyd yn flaenorol i Gynghorwyr eraill wedi'u gwneud mewn perthynas â buddiannau tebyg, fel y nodwyd yn yr adroddiad, roedd yr Aelodau'n teimlo bod angen bod yn gyson ac yn deg mewn perthynas â'r cais hwn o ran peidio â phleidleisio.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliad 2(2)(d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorwyr Aled Davies, Alun Davies, Arwel Davies, Mark Harris, Andrew Thomas SIARAD A GWNEUD SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG mewn cyfarfodydd mewn perthynas â materion yn ymwneud â Chynllun Ynni Tywi Wysg *Bute Energy a* bod y gollyngiadau hyn yn ddilys tan ddiwedd cyfnod presennol y Cynghorwyr dan sylw yn y swydd.**

## 5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD PETER COMLEY

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Peter Comley o Gyngor Cymuned y Betws am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig mewn perthynas â materion y cyngor ynghylch Clwb Rygbi'r Betws mewn perthynas â'r buddiannau personol a rhagfarnol canlynol:

- Clwb Rygbi'r Betws – Mae'r Cynghorydd Comley yn Aelod o'r Pwyllgor, ac ef yw'r Ysgrifennydd, y Trysorydd a'r Trwyddedai ar gyfer Clwb Rygbi'r Betws

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Comley fuddiant rhagfarnol a phersonol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10(2)(ix)(ee) o'r Côd Ymddygiad.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu gollyngiad o dan Reoliad 2 (2)(f) a (h) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Peter Comley SIARAD A GWNEUD SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG mewn cyfarfodydd mewn perthynas â materion yn ymwneud â Chlwb Rygbi'r Betws a bod y gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd ei gyfnod presennol yn y swydd.**

## 6. UNRHYW FATERION ARALL

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**